Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Cynllun Taliadau 2022/23

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Cynllun Taliadau 2022/23 yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd ar 8 Medi, 8 Hydref a 2 Rhagfyr 2021. Ystyriodd y Bwrdd y taliadau a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynodd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn benodol y Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a gafodd ei benodi i roi sicrwydd allanol bod y systemau a phrosesau a ddefnyddir i gynhyrchu'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi am y taliadau cyfanwerthu yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol fel y nodir uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y taliadau yng Nghynllun Taliadau Dŵr Cymru 2022/23 yn cydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cyfreithiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac, yn unol â hynny, maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

O ystyried 'Rheolau cynllun taliadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 143(6A) a 143B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, rydym o'r farn bod ein taliadau yn gyson â'r gofynion hyn, gan ystyried rheolau'r Cynllun Taliadau gyda'i gilydd.

Mae'r Bwrdd wedi cael gwybodaeth berthnasol am yr effeithiau a gaiff y taliadau newydd ar filiau cwsmeriaid ar gyfer amrywiaeth o fathau o gwsmeriaid. Rhoddodd ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys Tai (CPIH) ar gyfer mis Tachwedd, sef 4.6%, fwy o bwysau penodol ar i fyny ar filiau ar gyfer 2022/23. Mae'r Bwrdd wedi ceisio lliniaru hyn drwy wneud y canlynol:

a) Gohirio £15m o refeniw a danadenillwyd tan flynyddoedd yn y dyfodol;

b) Cymryd £2m o gosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau a gronnwyd yn 2021/22 yn 2022/23 yn hytrach na 2023/24;

c) Dychwelyd £10m o refeniw manwerthu a oradenillwyd yn syth, yn hytrach nag aros tan y system rheoli prisiau nesaf.

Er gwaethaf y camau hyn, o ganlyniad i'r taliadau ar gyfer 2022/23, bydd biliau cwsmeriaid gwasanaeth deuol heb fesurydd yn cynyddu 6%, bydd biliau aelwydydd dŵr yn unig sydd â mesurydd yn cynyddu 5%, bydd biliau cwsmeriaid dibreswyl heb fesurydd yn cynyddu 6%, bydd tariffau defnyddwyr diwydiannol mawr yn cynyddu 6%, a bydd biliau cwsmeriaid sydd â chysylltiad "dŵr budr yn unig" yn cynyddu 7-8%.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod strategaethau cyfathrebu ac ymdrin priodol ar waith ar gyfer y cwsmeriaid hyn, fel y nodir yn y datganiad o newidiadau sylweddol.

Mae'r cwmni wedi ymgynghori â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r cynllun taliadau, fel y nodir isod.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am roi cymeradwyaeth derfynol i Gynllun Taliadau 2022/23 (yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol), yn sgil cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddiannwyr (CPIH) ar 15 Rhagfyr 2021, i'r Prif Weithredwr..

**Peter Perry**
**Prif Weithredwr**

Ar ran y Bwrdd
16 Rhagfyr 2021

Dŵr Cymru
Welsh Water

## Atodiad – Atodlen Ymgysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr

| Dyddiad | Diben | Canlyniad |
|---|---|---|
| 29 Medi 21 | Diweddariad am godi tâl – Templed safonol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Cadarnhawyd nad oedd cynlluniau mewn perthynas â'r strwythur codi tâl, ond nodwyd bod risg y bydd chwyddiant uchel, refeniw a danadenillir yn 2020/21 a chosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau.<br>Cadarnhawyd mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr nad ydym yn ystyried gwarant ar hyn o bryd y bydd cwsmeriaid â mesurydd yn parhau ar y bil rhataf tan yr adeg pan na fyddant yn gymwys am gymorth ariannol mwyach. |
| 5 Hyd 21 | Diweddariad am godi tâl – Cyfarfod ar MS Teams | Gwnaethom nodi mai'r refeniw a ganiateir gan Dŵr Cymru ar gyfer 2022/23 yw cynnydd o ryw 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (rhagdybiaeth cynllunio CPIH: 3%). Ysgogir hyn gan chwyddiant uwch a thua £35m o refeniw a danadenillwyd yn 2020-21, y bwriedir ei gasglu yn 2022-23 (gan ddefnyddio ymarfer gwirio refeniw Ofwat). Rydym yn ymdrechu i gadw unrhyw gynnydd o gwmpas 5%, yn dibynnu ar y CPIH a gyhoeddir ym mis Tachwedd (mae gwaith dadansoddi cyfredol yn nodi y bydd CPIH Tachwedd yn 3%). Er mwyn gwneud hyn, rydym yn ystyried opsiynau i liniaru codiadau mewn biliau ac yn ystyried y posibilrwydd o ohirio refeniw tan flynyddoedd diweddarach yn yr AMP er mwyn cadw biliau'n sefydlog, heb achosi sioc i filiau yn y dyfodol.<br>Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn deall ein rhesymeg o ran blaenoriaethu sefydlogrwydd biliau yn ystod y cyfnod ansicr hwn ac yn deall ein hymdrechion mewn perthynas â chefnogi fforddiadwyedd.<br>Gwnaethom esbonio i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr bod y defnydd yn ymdonni o ganlyniad i gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, ond nad ydym am ymateb i'r newidiadau hyn nes ein bod yn deall y 'normal newydd' o ran patrwm defnydd. Gwnaethom bwysleisio mai ein blaenoriaeth yw sicrhau bod biliau yn sefydlog yn hytrach nag adlewyrchu costau. Cytunodd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr â'r cynnig hwn. |
| 10 Tach 21 | Diweddariad am godi tâl – e-bost | E-bost yn nodi lefel debygol y cynnydd mewn taliadau yn seiliedig ar CPIH o 4%. |
| 30 Tach 21 | Trafodaethau am y cynnig codi tâl – diweddariad | Esboniwyd lefel debygol y cynnydd mewn taliadau o ystyried y CPIH diweddaraf a ragfynegir, sef 4.5%. |
| 16 Rhag 21 | Cyflwyno'r taliadau drafft ar ôl cyhoeddi'r CPIH. | Rhoddwyd gwybodaeth am effeithiau ein taliadau terfynol ar filiau i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr drwy e-bost ar 16 Rhagfyr. |
| Ion 22 | Diweddariad am daliadau | Ar ôl cwblhau taliadau 22/23, byddwn yn cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o dempled y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn nodi gwerthoedd biliau cyfartalog a newidiadau mewn %. |